Ty Castle Green dan do

Erbyn hyn, mae Tŷ Castle Green yn cael ei warchod rhag y tywydd gan gocŵn. Bydd hwn yn diogelu'r tŷ dros y pum mlynedd nesaf nes y codir digon o arian i adnewyddu'r holl adeilad.

Yn ôl David Maynard, Rheolwr y Prosiect, mae rhai o drawstiau'r to wedi cwympo gan adael i'r glaw ddod i mewn i'r adeilad, sy'n achosi i'r lloriau pren bydru ac i'r plaster a'r nenfydau gwympo. Bydd y cocŵn yn helpu atal y dadfeilio. Disgwylir y bydd yn bosibl ailadeiladu'r to gyntaf ac yna gael gwared â'r to-dros-dro. Wedyn gellir defnyddio rhannau is o'r sgaffaldwaith yn blatfform i adnewyddu'r waliau.

Mae to'r cocŵn wedi'i wneud o ddalennau proffeil, a dalennau rwbel yw'r ochrau, sef rhwyllwaith agored a fydd yn lleihau cyflymdra'r gwynt a gadael i wyneb yr adeilad anadlu. Cymerwyd 10 mis i gwblhau'r cocŵn a gynlluniwyd gan arbenigwr a'i godi gan Teifiside Scaffolding sy'n gwmni lleol.

Gan fod Tŷ Castle Green yn adeilad rhestredig Gradd II* roedd angen cael caniatâd Cadw, a chafwyd grant 50% ganddynt. Ceir gweddill y cost drwy gyllid cyfartal gan Cyngor Sir Ceredigion, a chaiff rhan o hyn ei adennill ar ôl cwblhau'r gwaith.

Croeso i rifyn cyntaf Newyddion y Castell. Gobeithiwn y bydd yn eich plesio. Gallwch ddarllen am ddatblygiadau pwysig yn y Teifiseid o hyd, ond bydd eich cylchlythyr yn rhoi gwybod i chi am faterion cyfredol, digwyddiadau i wirfoddolwyr ac yn y blaen. Dosberthir Newyddion y Castell bedair gwaith y flwyddyn ond os nad ydych chi eisiau ei dderbyn a wnewch ddychwelyd yr amlen atom yn y cyfeiriad isod.

Mae gwirfoddolwyr wedi bod yn clirio chwyn o'r castell dros y penwythnosau. Maent wedi darganfod llwybr oedd wedi'i guddio dan dyfiant blynyddoedd lawer, ac wrth i ragor o'r gwaith cerrig gael ei ddagelu ceir cliwiau am rai o'r newidiadau sy wedi'u gwneud yn ystod hanes hir y safle. Mae'n bwysig cadw'r ardal mor glir â phosibl ar gyfer mynediad tra bod yr ymchwiliadau yn mynd yn eu blaen. Mae gwirfoddolwyr yn gweithio bob yn ail wythnos ar Sadyrnau yn y bore o10 o'r gloch. Os hoffech helpu, y dyddiadau nesaf fydd 22 Ebrill ac 6 Mai.

Cynhaliwyd cyrsiau hanes yn ystod mis Mawrth. Dysgodd y rhai oedd yn cymryd rhan am hanes lleol wrth fynd trwy hen luniau a dogfennau. Clywon nhw hefyd am y digwyddiadau diweddaraf yn natblygiad y Castell wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg. Gobeithir cynnal rhagor o'r cyrsiau hyn yn y dyfodol, felly darllenwch y rhifynnau nesaf.

Ebrill 2006 Datgloi y Potsensial, 2 Green Street, Aberteifi SA43 1JA. Ffôn: 01239 615806

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1